Arwyr – CA5

Tasg 5: Ysgrifennu creadigol – adroddiad papur newydd

Fel Gwyn Thomas, roedd Hedd Wyn hefyd wedi ysgrifennu cerdd am Arwr. 'Yr Arwr' oedd testun yr awdl yn Eisteddfod Genedlaethol 1917.

Mae hanes Hedd Wyn, neu Ellis Humphrey Evans, yn adnabyddus i bawb a'r modd y bu'n rhaid iddo fynd i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn groes i'w ewyllys. Tra oedd e yn y ffosydd, gorffennodd yr awdl a fyddai'n fuddugol yn yr Eisteddfod. Ond cyn i'r Eisteddfod gael ei chynnal, roedd y bardd wedi cael ei ladd. Ni welodd e fyth mo'i gadair, ac mae honno'n cael ei chadw mewn lle anrhydeddus yn ei gartref yn Yr Ysgwrn hyd heddiw.

Llawysgrif Hedd Wyn – Tudalen flaen yr awdl fuddugol: 'Yr Arwr'



Tasg

Rydych chi'n gweithio i'r bapur newydd yn yr oes o'r blaen, cyn dyddiau cyfrifiaduron a thechnoleg ddigidol.

Mae angen disgrifiad manwl iawn o wyneb Ellis Humphrey Evans.

Defnyddiwch gyffelybiaeth, cymhariaeth a throsiad i droi'r ffotograff yn bortread mewn geiriau.

Tasg 2

Gan ddefnyddio'r un technegau ag yn nhasg 1, trowch y ffotograff hwn o Gwyn Thomas yn bortread mewn geiriau.